Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Brynmenyn

**Heol Sarah Jane Howell**
**Ton-du**
**Pen-y-bont ar Ogwr**
**CF32 9SB**

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2022**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant**

**yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Brynmenyn

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Brynmenyn |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 409 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 292 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 58 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 21.3%) | 32.8% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 22.2%) | 16.8% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | * |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 4.8% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 20/04/2021 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 17/09/2012 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 17/10/2022 |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: fyysgolleol.llyw.cymru

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Gynradd Brynmenyn yn ysgol hapus a chynhwysol sy'n rhoi blaenoriaeth uchel i les ei disgyblion. Mae'n darparu hafan ddigynnwrf lle mae disgyblion yn ffynnu. Mae ymddygiad pob un o'r disgyblion yn yr ysgol, ac o gwmpas yr ysgol, yn eithriadol o dda.

O oedran ifanc iawn, mae disgyblion yn datblygu dealltwriaeth o bwysigrwydd parchu pobl eraill. Maent yn rhyngweithio'n dda trwy gydol y diwrnod ysgol, ac maent yn sensitif i anghenion ei gilydd. O'u mannau cychwyn, sy'n aml yn isel, mae disgyblion yn gwneud cynnydd sylweddol yn datblygu eu medrau siarad a gwrando, ac o ganlyniad, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion fedrau llafaredd rhagorol. Erbyn Blwyddyn 6, gall disgyblion gynnal sgyrsiau manwl am eu gwaith ac ystyried ymatebion ei gilydd yn ofalus mewn trafodaethau grŵp. Fodd bynnag, mae medrau Cymraeg disgyblion yn llai cryf. Mae disgyblion yn datblygu llais cryf yn yr ysgol, yn cyfrannu'n dda at amrywiaeth o grwpiau a phwyllgorau, ac yn gallu rhoi enghreifftiau o ble mae eu dylanwad wedi cael effaith gadarnhaol ar fywyd yr ysgol.

Mae athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o'r amgylchedd dan do ac yn cynllunio gweithgareddau diddorol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau ehangach yn y 'stryd'. Mae gan bob aelod o staff berthnasoedd cadarnhaol â disgyblion, ac maent yn eu helpu'n sylweddol i ddatblygu agweddau cadarnhaol at ddysgu, er nad yw cyfleoedd i ddisgyblion aeddfedu fel dysgwyr annibynnol wedi'u datblygu'n ddigonol. Mae'r ysgol yn sefydlu cwricwlwm o gwmpas anghenion y disgyblion sy'n eu helpu i ddatblygu dealltwriaeth bwrpasol o'u cymuned leol, eu cymuned ehangach a'u lle yn y byd. Mae arweinwyr a staff yn gofalu'n dda am yr holl ddisgyblion. Maent wedi datblygu cysylltiadau effeithiol â rhieni a gofalwyr sydd wedi cyfrannu at yr ymdeimlad o gymuned gefnogol yn yr ysgol.

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gref. Mae hi wedi datblygu uwch dîm arweinyddiaeth effeithiol, sy'n ei chynorthwyo'n dda. Mae'r staff yn gweithio'n agos fel tîm ac wedi ymrwymo i greu dysgwyr gydol oes. At ei gilydd, maent yn adnabod eu hysgol yn dda, ond nid yw prosesau hunanwerthuso bob amser yn canolbwyntio'n ddigon craff ar yr hyn y mae dysgwyr yn ei wneud a'i gyflawni.

## Argymhellion

A1 Canolbwyntio strategaethau monitro, gwerthuso a gwella yn graffach ar wella darpariaeth a safonau dysgu disgyblion

A2 Darparu cyfleoedd i ddisgyblion gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain a dod yn ddysgwyr annibynnol

A3 Gwella medrau disgyblion o ran siarad Cymraeg

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

# Prif werthusiad

## Dysgu

Mae llawer o ddisgyblion yn ymuno â'r dosbarth meithrin gyda medrau a dealltwriaeth islaw'r rhai sy'n ddisgwyliedig am eu hoedran. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn.

Mae ychydig iawn o'r disgyblion iau yn siarad yn glir ac yn hyderus pan fyddant yn dechrau yn yr ysgol. O fewn y flwyddyn, mae llawer o ddisgyblion yn y dosbarth derbyn yn magu hyder i siarad a dechrau cyfrannu'n llwyddiannus yn ystod eu sesiynau carped. Maent yn mwynhau chwarae gwahanol gymeriadau yn swyddfa bost y dosbarth ac yn ail-ddweud storïau'n dda. Mae'r cynnydd cyflym hwn yn parhau, ac erbyn Blwyddyn 2, mae disgyblion yn rhoi sylw agos i'r hyn y mae pobl eraill yn ei ddweud, ac yn siarad yn frwdfrydig am eu gwaith. Wrth i'r disgyblion barhau i ddatblygu ac aeddfedu, felly mae eu medrau llafaredd hefyd. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ym Mlwyddyn 6 yn siaradwyr eithriadol o huawdl. At ei gilydd, mae medrau llafaredd disgyblion ar draws yr ysgol yn rhagorol.

Mewn llawer o ddosbarthiadau, mae disgyblion yn ymateb yn briodol i gwestiynau a ofynnir yn Gymraeg gan eu hathrawon neu gan yr Helpwr Heddiw dyddiol. Fodd bynnag, ar draws yr ysgol, nid yw disgyblion yn siarad Cymraeg yn ddigon hyderus ac nid oes ganddynt ddealltwriaeth ddigonol o batrymau iaith sylfaenol i ymateb yn dda i gwestiynau cyffredin.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau darllen effeithiol. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer o ddisgyblion yn dangos dealltwriaeth dda o'r hyn y maent wedi'i ddarllen ac yn gwneud rhagfynegiadau synhwyrol am beth allai ddigwydd nesaf mewn stori. O Flwyddyn 3 i Flwyddyn 6, mae llawer o ddisgyblion yn cael pleser wrth ddarllen. Maent yn defnyddio medrau ymchwil yn effeithiol i lithrddarllen testun am wybodaeth, er enghraifft pan fyddant yn darganfod ffeithiau am ystlumod ac achosion a chanlyniadau pam mae ein hamgylchedd yn newid.

Wrth i ddisgyblion symud o'r dosbarth meithrin i Flwyddyn 2, maent yn datblygu ffyrdd o gyfleu eu syniadau ar bapur yn dda. Maent yn gwneud cynnydd o greu marciau i ffurfio llythrennau, ac yn ffurfio geiriau sylfaenol yn y pen draw i gynhyrchu darnau diddorol o ysgrifennu, er enghraifft defnyddio geirfa ddychmygus i ddisgrifio dreigiau dychmygol. O Flwyddyn 3 i Flwyddyn 6, mae disgyblion yn ysgrifennu ar gyfer ystod o genres a dibenion ac yn llunio llythyrau diddorol, er enghraifft i holi Liz Truss am gyflwr yr economi. Fodd bynnag, nid yw disgyblion, yn enwedig y rhai mwy abl, bob amser yn cynhyrchu gwaith i ddangos y gorau o'u gallu, ac ychydig iawn ohonynt sy'n ymestyn eu hysgrifennu mewn meysydd dysgu eraill. Mae gallu disgyblion i sillafu amrywiaeth o eiriau yn gywir yn amrywiol ar draws yr ysgol.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol wrth ddatblygu amrywiaeth o fedrau yn eu gwersi mathemateg. Mae gan ddisgyblion amgyffrediad cadarn o waith rhif, ac maent yn defnyddio geirfa briodol wrth rannu eu dulliau cyfrifo. Mae'r disgyblion iau yn y dosbarth meithrin yn adnabod rhifau trwy ystod o weithgareddau ymarferol, er enghraifft paru rhifau â dail a mes. Wrth i ddisgyblion symud trwy'r blynyddoedd, maent yn galw dysgu blaenorol i gof yn dda a gallant adeiladu ar

ddysgu blaenorol yn effeithiol. Mae disgyblion yn defnyddio termau mathemategol cywir i esbonio eu problemau geiriau ac yn rhannu mwy nag un dull yn hyderus â'u cyd-ddisgyblion, ac mae disgyblion hŷn mwy abl yn defnyddio strategaethau cyfrifo ffurfiol yn gywir hefyd. Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dechrau defnyddio eu medrau mathemategol mewn meysydd dysgu eraill, fel defnyddio eu medrau datrys problemau mewn gweithgaredd dylunio a chreu. At ei gilydd, mae cyfleoedd i ddefnyddio mesurau, siâp a gofod a thrin data yn briodol.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn defnyddio rhaglenni digidol yn hyderus i gefnogi eu dysgu. Maent yn ymchwilio i hanes arweinwyr seneddol blaenorol ac yn newid ffotograffau enwog yn greadigol i ddylunio posteri ymgyrchu. Mae disgyblion iau yn defnyddio amrywiaeth o apiau, fel gemau sillafu a mathemateg i'w helpu i ddysgu. Ar draws yr ysgol, maent yn defnyddio rhaglenni prosesu geiriau a chyflwyno yn dda i gofnodi a rhannu eu gwaith ar destunau. Mae'r disgyblion hŷn ym Mlwyddyn 6 yn dechrau chwilota mewn cronfeydd data ac yn creu a chwilota eu rhai eu hunain i ddewis math penodol o dŷ o asiant eiddo, er enghraifft. Fodd bynnag, mae medrau disgyblion mewn codio yn gyfyngedig. Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd pwrpasol yn datblygu eu medrau corfforol a chymdeithasol trwy weithgareddau yn yr ardaloedd dan do ac awyr agored. At ei gilydd, mae gallu'r rhan fwyaf o ddisgyblion i gymhwyso eu creadigrwydd, yn enwedig mewn gweithgareddau annibynnol, yn llai datblygedig.

### Lles ac agweddau at ddysgu

Bob bore, mae disgyblion yn mynd i'r ysgol gydag agweddau cadarnhaol a brwdfrydedd i ddysgu. Yn yr amgylchedd diogel ac anogol, mae'r disgyblion yn ffynnu ac yn datblygu i fod yn unigolion aeddfed a gofalgar. Ar draws yr ysgol, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o sut i'w cadw eu hunain yn ddiogel wrth ddefnyddio'r rhyngrwyd.

Mae disgyblion yn gwrtais a moesgar, ac yn dangos parch at oedolion ac at ei gilydd. Maent yn cyfarch ymwelwyr â gwên gynnes a chyfarchiad cyfeillgar, sy'n gwneud i chi deimlo'n rhan o gymuned ehangach yr ysgol ar unwaith. Mae rhyngweithio'r disgyblion â'i gilydd a'r holl oedolion yn eithriadol o dda, ac mae'n amlwg eu bod yn teimlo'n gysurus wrth rannu eu materion lles personol neu wrth drafod eu gwaith.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn cyfrannu at eu lles eu hunain a lles disgyblion eraill yn effeithiol iawn. Maent yn ymwybodol iawn o anghenion ei gilydd ac yn cymryd gofal mawr o'i gilydd. Mae'r cyfeillion 'cyllell a fforc' ym Mlwyddyn 4 yn treulio amser gwerthfawr gyda'r disgyblion ifanc iawn yn ystod eu tymor cyntaf yn yr ysgol i addysgu moesgarwch wrth y bwrdd a datblygu cyfeillgarwch cadarn. Caiff hyn effaith gadarnhaol iawn ar hapusrwydd disgyblion ac ymdeimlad o ddiogelwch wrth iddynt fagu hyder ac ymgynefino â bywyd yn yr ysgol.

Mae'r ffordd mae disgyblion yn ymddwyn y tu mewn a'r tu allan i'r ystafell ddosbarth yn nodwedd nodedig o'r ysgol. Mae disgyblion yn symud yn bwyllog ac yn synhwyrol o un dasg i un arall. Maent yn dangos lefelau uchel o hunangymhelliant ac yn ymgysylltu'n dda â bron pob un o'r tasgau. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cydweithio'n gyfforddus iawn. Maent yn rhannu rolau mewn tasgau grŵp ac yn ystyried cryfderau aelodau unigol yn sensitif. Maent yn gweithio ar eu tasgau ar y cyd gydag eiddgarwch, yn enwedig pan fyddant yn trafod y rhinweddau sydd eu hangen i fod yn arweinydd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dechrau gwella'u gwaith eu

hunain ac yn cyfrannu at yr hyn y maent eisiau ei ddysgu. Fodd bynnag, mae medrau dysgu'n annibynnol llawer o ddisgyblion yn gyfyngedig gan eu bod yn dibynnu gormod ar oedolion i roi cyfarwyddyd iddynt ynghylch eu dysgu.

Mae gan bron bob un o'r disgyblion agweddau cadarnhaol tuag at eu gwaith, ac maent yn dyfalbarhau'n dda iawn â'u tasgau. Mae disgyblion yn dechrau datblygu strategaethau effeithiol i oresgyn anawsterau yn eu gwaith. Maent yn gweithio'n ddiwyd am gyfnodau amser estynedig wrth gwblhau eu gweithgareddau, ac yn gweithio'n effeithiol gyda'u cyfoedion o oedran ifanc yn y dosbarth meithrin. Maent yn gwrando ar farn pobl eraill yn effeithiol, ac yn ei pharchu, er enghraifft wrth drafod sut i ddatblygu ymgyrch etholiad ym Mlwyddyn 6.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos aeddfedrwydd eithriadol o dda wrth ymgymryd â chyfrifoldebau ychwanegol, fel dod yn aelodau o'r Cyngor Ysgol, datblygu eu rôl fel 'Cap Coch' a chyfrannu at y Pwyllgor Eco. Mae'r tîm Arweinyddiaeth Iau a Llysgenhadon Ysgol yn dangos ymrwymiad a brwdfrydedd cryf tuag at wella a gwerthuso agweddau penodol ar yr ysgol. Maent wedi llwyddo i sefydlu ymgyrch gwrthfwlio ac yn dechrau hyrwyddo agweddau cadarnhaol at ddysgu yn effeithiol.

Mae pob un o'r disgyblion yn elwa'n fawr iawn ar amrywiaeth o sesiynau ymwybyddiaeth ofalgar sy'n cyfrannu'n dda at eu lles cyffredinol. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'r angen i fwyta'n iach a chymryd rhan mewn ymarfer corff rheolaidd yn ystod y dydd, a thrwy glybiau allgyrsiol yr ysgol.

Mae gan lawer o ddisgyblion ddealltwriaeth bwrpasol o'u hawliau a'u cyfrifoldebau fel dinasyddion byd-eang. Trwy nifer o weithgareddau codi arian, mae'r disgyblion yn datblygu empathi tuag at bobl eraill trwy gefnogi elusennau lleol a byd-eang. Mae disgyblion yn siarad yn gynnes am y cysylltiad agos sydd ganddynt â'r cartref gofal lleol, ac maent yn falch iawn o'r llawenydd a'r hapusrwydd y maent yn ei roi i'r preswylwyr pan fyddant yn ymweld.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Un o gryfderau nodedig yr ysgol yw sut mae'r staff yn creu amgylchedd digynnwrf, anogol a chynhyrchiol ar gyfer disgyblion, sy'n gwneud yr ysgol yn lle hyfryd i ddysgu. Mae athrawon yn adnabod eu disgyblion yn dda. Maent yn ffurfio perthnasoedd cynnes a pharchus gyda nhw ac yn darparu gweithgareddau dysgu difyr a chynhwysol. Mae prosesau effeithiol iawn i hyrwyddo ymddygiad eithriadol o dda yn cynorthwyo disgyblion i fod yn llawn cymhelliant a'u datblygu i fod yn ddysgwyr cadarnhaol a hyderus.

Mae staff wedi datblygu eu dosbarthiadau i fod yn lleoedd ysgogol a difyr i ddisgyblion ddysgu. Mae'r ardal 'stryd' y tu allan i bob ystafell ddosbarth yn ymestyn y dysgu'n effeithiol gyda chyfleoedd i'r disgyblion archwilio, dylunio, cynllunio ac adeiladu. Mae tir helaeth yr ysgol yn ymestyn darpariaeth y cwricwlwm ymhellach ar gyfer gemau, addysg gorfforol a datblygu medrau cydsymud disgyblion. Fodd bynnag, mae'r staff yn defnyddio'r awyr agored fel gofod ychwanegol yn hytrach nag adnodd i ymestyn a mireinio medrau disgyblion. Mae'r ysgol yn ychwanegu at ei chwricwlwm yn dda gydag amrywiaeth o ymweliadau ac ymwelwyr â'r ysgol, a gweithgareddau allgyrsiol difyr sy'n cyfoethogi profiadau disgyblion, fel clybiau amser cinio i ddatblygu medrau digidol a chreadigol disgyblion.

Ar ddechrau gwersi, mae athrawon yn rhoi esboniadau clir i ddisgyblion i sicrhau eu bod yn gwbl ymwybodol o’r hyn y mae angen iddynt ei wneud i lwyddo yn eu tasgau. Mae’r rhan fwyaf o athrawon yn defnyddio holi’n ofalus i gynorthwyo disgyblion i ddatblygu eu gwybodaeth a’u dealltwriaeth ac ymestyn eu dysgu ymhellach. Maent yn rhoi adborth llafar gwerthfawr i ddisgyblion trwy gydol gwersi. Mae sylwadau athrawon yn sensitif a chalonogol, ac maent yn aml yn oedi i alluogi’r disgyblion i ddathlu eu llwyddiannau, gan dreulio amser yn magu eu hyder yn effeithiol. Mae ansawdd adborth ysgrifenedig athrawon yn fwy amrywiol. Pan fydd hyn yn fwyaf effeithiol, mae athrawon yn rhoi arweiniad clir i ddisgyblion ar sut gallant wella’u gwaith, ac yn gofyn cwestiynau perthnasol i helpu ymestyn eu meddwl, yn hytrach na chanolbwyntio ar gywirdeb neu ramadeg yn unig.

Mae athrawon yn defnyddio’r swyddogion cymorth dysgu yn dda i gefnogi dysgu a lles disgyblion ym mhob gweithgaredd. Yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau, mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau sy’n ddiddorol a difyr, sy’n llwyddo i gryfhau agweddau disgyblion at ddysgu. Maent yn defnyddio adnoddau’n dda i ymestyn eu haddysgu, a dal dychymyg disgyblion. Yn yr enghreifftiau gorau, mae athrawon yn darparu gweithgareddau sy’n diwallu anghenion disgyblion yn briodol, gan adeiladu’n dda ar ddysgu blaenorol. Maent yn addasu gweithgareddau yn ystyriol, i ddarparu lefel briodol o her sy’n galluogi’r rhan fwyaf o ddisgyblion i wneud cynnydd buddiol. Fodd bynnag, mae tuedd i athrawon arwain gormod o’r gweithgareddau, sy’n cyfyngu ar gyfleoedd i ddisgyblion gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain a dod yn ddysgwyr annibynnol.

Mae gan arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer cwricwlwm yr ysgol. Mae staff yn gweithio gyda’i gilydd yn effeithiol i wella addysgu a dysgu trwy eu hymagwedd fyfyriol at ddiwygio’r cwricwlwm. Maent wedi gweithio’n dda i ddechrau strwythuro’r cwricwlwm fel ei fod yn adeiladu’n systematig ac yn gydlynus ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau presennol disgyblion wrth iddynt symud trwy’r ysgol. Mae athrawon o’r un grwpiau blwyddyn yn gweithio gyda’i gilydd yn dda i sicrhau bod gweithgareddau dysgu yn gydlynus a phwrpasol. Mae staff a disgyblion yn creu themâu dosbarth sy’n galluogi disgyblion i ymgysylltu â meddwl beirniadol, datrys problemau, a thrafodaethau am faterion lleol a chenedlaethol. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 4 yn ymchwilio i, ac archwilio, gwledydd amrywiol ac yn dysgu am ddiwylliant, crefydd, ieithoedd, a bywydau bob dydd plant o gwmpas y byd.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau llafaredd disgyblion mewn Saesneg yn gryfder arbennig. Trwy weithgareddau tra ystyriol, mae disgyblion yn magu hyder wrth iddynt symud o un dosbarth i’r llall. Yn aml, mae athrawon yn cynllunio a dylunio’r cwricwlwm i ddarparu cyfleoedd difyr sy’n galluogi disgyblion i ddatblygu amrywiaeth o fedrau llythrennedd o fewn eu gweithgareddau dyddiol. Er enghraifft, tra’n astudio ‘rheolau a rheolwyr’, mae disgyblion Blwyddyn 6 yn ysgrifennu cofnod dyddiadur am eu diwrnod fel y Prif Weinidog yn ystod yr argyfwng costau byw. Fodd bynnag, mae cyfleoedd i ddatblygu medrau ysgrifennu estynedig disgyblion mewn meysydd dysgu eraill, a medrau Cymraeg, yn llai llwyddiannus. At ei gilydd, mae cynllunio athrawon i ddatblygu medrau rhifedd a medrau digidol disgyblion yn briodol.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae staff yn rhoi blaenoriaeth eithriadol o uchel i les disgyblion, ac mae ffocws penodol wedi bod ar hyn yn ystod pandemig COVID-19, ac ers hynny. Mae staff yn adnabod eu disgyblion yn dda iawn ac yn diwallu eu hanghenion lles yn hynod

effeithiol. Mae rhaglenni i ddatblygu a chefnogi llythrennedd cymdeithasol ac emosiynol wedi'u hymgorffori'n dda iawn ac yn cael effaith sylweddol. At ei gilydd, mae'r ffocws cryf hwn ar les disgyblion yn gryfder yn yr ysgol.

Ar draws yr ysgol, ceir ymagwedd bwyllog, gydlynus a chyson at reoli ymddygiad. Mae'r staff wedi gweithio'n agos gyda'r disgyblion i ddatblygu strategaethau hunanreolaeth er mwyn rheoli eu hemosiynau eu hunain, ac emosiynau eu cyfoedion. Mae mentrau pellach fel wythnos gwrthfwlio a chyfeillion maes chwarae, yn helpu sicrhau bod nifer yr achosion o fwlio yn brin iawn. O ganlyniad, mae ymddygiad disgyblion yn eithriadol o dda.

Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi cyflwyno ymagweddau newydd at ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o gydraddoldeb, amrywiaeth a meithrin eu dyheadau ar gyfer y dyfodol. Mae wythnosau thema, fel 'Rydw i'n unigryw ac amrywiaeth' ('Unique me and diversity') neu 'Y byd gwaith' ('The world of work') yn cynnig cyfleoedd helaeth i ddisgyblion archwilio eu hunain a dathlu'r hyn sy'n gwneud pob un ohonom yn wahanol. Croesawodd yr ysgol nifer fawr o sefydliadau i archwilio amrywiaeth eang o yrfaoedd ar gyfer y dyfodol, yn cynnwys milfeddygon, masnachwyr, a pheiriannydd prosthetig a gynhaliodd weithdai ar gyfer pob grŵp blwyddyn i ailadeiladu aelodau a chymalau artiffisial. O ganlyniad, datblygodd y disgyblion ddealltwriaeth o fedrau peirianneg sylfaenol ac empathi am y rhai sydd â nam corfforol.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad diwylliannol, ysbrydol a moesol trwy'r cwricwlwm ac addoli dyddiol ar y cyd. Mae'r staff wedi sefydlu ymdeimlad cryf o berthyn trwy hyrwyddo gwerthoedd gonestrwydd, gwirionedd, caredigrwydd, cefnogaeth a pharch. Caiff y gwerthoedd hyn eu deall yn dda gan ddisgyblion a rhieni, fel ei gilydd. Mae gwasanaethau a chyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion hŷn ac iau weithio neu chwarae ar y cyd yn cryfhau perthnasoedd ymhellach, ac yn meithrin ymddiriedaeth rhwng holl aelodau'r ysgol.

Mae'r ysgol yn cynnal Eisteddfod flynyddol i godi ymwybyddiaeth disgyblion am y traddodiad, a diddordeb yn nhraddodiadau a diwylliant yr ardal leol a Chymru. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth yn cynorthwyo disgyblion ar draws yr ysgol i gael gwybodaeth gadarn am ddiwylliant yr ardal leol a Chymru.

Mae'r ysgol yn cynllunio'n dda i ddisgyblion ddeall pwysigrwydd bod yn gorfforol egnïol trwy wersi a gweithgareddau wedi'u trefnu, fel cerdded milltir bob dydd. Mae'r sesiynau ioga rheolaidd yn datblygu dealltwriaeth disgyblion o bwysigrwydd corff iach a meddwl iach. Mae staff yn sicrhau bod cyfleoedd addas i addysgu'r disgyblion am fwyta'n iach.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer ychydig iawn o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn gadarn. Mae'r ysgol yn cynorthwyo disgyblion â namau corfforol neu anghenion ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol yn hynod effeithiol, ac yn gweithio gydag ystod eang o asiantaethau allanol i gynorthwyo'r disgyblion a'r rhieni'n llwyddiannus. Ar y cyfan, mae'r ysgol yn cynllunio gweithgareddau llythrennedd a rhifedd yn effeithiol i gefnogi dysgu disgyblion ag ADY, ac o ganlyniad, mae'r disgyblion hyn yn gwneud cynnydd addas o'u mannau cychwyn unigol. Fodd bynnag, ni chaiff strategaethau penodol i gynorthwyo'r disgyblion eu defnyddio'n ddigon cyson mewn gwersi bob amser.

Mae'r ysgol yn darparu nifer o gyfleoedd i ddisgyblion gymryd cyfrifoldeb am eu hamgylchedd dysgu, yn ogystal â dal swyddi cyfrifol ffurfiol. Gall disgyblion hŷn ymgeisio am amrywiaeth eang o rolau fel Llysgenhadon Ysgol neu swyddogion

cymorth cyntaf Cap Coch, a chânt eu penodi gan y pennaeth i swyddi arwain fel Prif Fachgen neu Brif Ferch, neu i'r Tîm Arweinyddiaeth Iau. Mae'r rolau hyn yn cefnogi datblygiad eu hunanhyder ac yn helpu disgyblion i ddylanwadu ar waith yr ysgol.

Mae'r ysgol yn creu ac yn cynnal amgylchedd diogel ar gyfer pob un o'r disgyblion, ac mae arweinwyr wedi llwyddo i ymgorffori diwylliant cryf o ddiogelu, sy'n cynnwys diogeledd effeithiol ar y safle. Mae'r cysylltiadau cryf â'r swyddog heddlu lleol sy'n ymweld â'r ysgol yn rheolaidd i arwain sesiynau am 'beryglon dieithriaid' ('stranger danger'), diogelwch ar-lein a chamddefnyddio cyffuriau a sylweddau, yn datblygu ymwybyddiaeth disgyblion o sut i'w cadw eu hunain yn ddiogel yn y gymuned ehangach. Mae'r ysgol yn gweithio'n agos â'r disgyblion a'u teuluoedd nad yw eu presenoldeb yn ddigon da, ac ar gyfer y rhai sy'n hwyr yn y bore. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar wella cyfraddau presenoldeb ar gyfer y disgyblion hyn.

### Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae'r pennaeth ymroddgar ac angerddol, gyda chymorth medrus gan ddirprwy bennaeth cryf, yn darparu arweinyddiaeth effeithiol. Mae arweinwyr, staff a llywodraethwyr yn meddu ar ddealltwriaeth gref o anghenion y disgyblion a'r ardal leol. Maent yn gweithio'n gydwybodol i ddiwallu'r anghenion hyn, i sicrhau nad yw anfantais economaidd yn effeithio ar gyrhaeddiad addysgol eu disgyblion.

Mae gan arweinwyr weledigaeth glir sydd â ffocws trylwyr ar les, cynhwysiant, a rhoi'r ysgol wrth wraidd y gymuned. Maent yn ymgysylltu'n llwyddiannus â'r holl randdeiliaid ac wedi ymrwymo i gyflawni'r weledigaeth wrth gynnal yr ysgol o ddydd i ddydd. Mae pob un o'r oedolion yn rhoi pwyslais cryf ar bwysigrwydd dangos gofal ac ystyriaeth at ei gilydd, ac yn dangos lefel uchel o ymrwymiad i wneud cyfnod pawb yn yr ysgol yn gadarnhaol a dymunol. Mae'r tîm staff yn llawn cymhelliant o ganlyniad i'r cymorth a'r arweiniad a ddarperir ar faterion ysgol gyfan, ac ansawdd uchel y strategaethau lles a ddefnyddir gan uwch arweinwyr.

Mae uwch arweinwyr yn datblygu trefniadau'n bwrpasol i ddosbarthu rolau arwain a dwyn staff i gyfrif am ansawdd ac effaith eu gwaith. Mae arweinwyr yn canolbwyntio ar fireinio ansawdd yr addysgu ac ymgorffori dealltwriaeth ar y cyd o werthoedd proffesiynol ymhlith y staff. O ganlyniad, mae cysondeb clir yn narpariaeth yr ysgol, gan gynnwys mewn ymagweddau addysgu. At ei gilydd, mae pob un o'r staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau'n dda.

Mae'r ysgol yn gymuned ddysgu effeithiol. Mae'r system rheoli perfformiad ar gyfer staff yn gadarn, ac mae pob un o'r staff yn elwa ar gyfleoedd datblygiad proffesiynol perthnasol. Mae'r rhain wedi cael effaith gadarnhaol ar ddatblygu arbenigedd staff ac ar wella deilliannau disgyblion. Er enghraifft, mae hyfforddiant i wella medrau darllen disgyblion, yn ogystal â'r rhaglenni i gefnogi lles disgyblion bregus wedi bod yn llwyddiannus o ran gwella amgyffrediad disgyblion o destunau a chynorthwyo disgyblion i ddychwelyd i arferion cyffredin yr ysgol ar ôl y tarfu a achoswyd gan y pandemig. Mae'r ysgol yn gweithio'n dda iawn gydag ysgolion eraill yn ei chlwstwr i ddatblygu arfer broffesiynol.

Mae arweinwyr yn ymgymryd ag ystod eang o weithgareddau monitro sy'n eu helpu i werthuso ansawdd gwaith yr ysgol yn bwrpasol. Maent yn defnyddio set gynhwysfawr o ymagweddau at gasglu tystiolaeth uniongyrchol, gan gynnwys teithiau dysgu, craffu ar lyfrau disgyblion a dadansoddi data sy'n mesur cynnydd disgyblion, i lywio eu proses hunanwerthuso. Mae'r prosesau hyn yn eu helpu i gael

dealltwriaeth eang o gryfderau a gwendidau'r ysgol. Er enghraifft, dros gyfnod, mae'r ysgol wedi nodi bod angen gwella safonau llafaredd disgyblion a mewnbwn disgyblion i wella'u dysgu eu hunain. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn meddu ar fedrau llafaredd rhagorol, ac mae disgyblion yn dechrau asesu eu gwaith eu hunain yn bwrpasol. Fodd bynnag, mae'r blaenoriaethau yn aml yn rhy eang i symud yr ysgol ymlaen, ac nid ydynt yn canolbwyntio'n ddigon craff ar wella darpariaeth a dysgu disgyblion, er enghraifft i wella safonau medrau Cymraeg disgyblion. Mae'r cynllun yn cyd-fynd yn llwyddiannus â mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol a lleol, fel datblygu elfennau o'r Cwricwlwm i Gymru a lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol.

Mae'r corff llywodraethol yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o anghenion disgyblion, ac yn adnabod y gymuned a wasanaethir gan yr ysgol yn dda iawn. Mae wedi cynnal ei rôl gefnogol ac yn parhau i gyflawni ei ddyletswyddau statudol yn effeithiol, fel sicrhau trefniadau addas ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Fodd bynnag, nid yw dealltwriaeth llywodraethwyr o brif gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella yn ddigon cryf. Effeithiodd cyfyngiadau'r pandemig ar eu hymagwedd uniongyrchol, ac o ganlyniad, maent yn dibynnu'n ormodol ar hyn o bryd ar y wybodaeth a ddarperir gan arweinwyr i werthuso gwaith yr ysgol. Mae'r corff llywodraethol yn monitro cyllid yr ysgol yn dda ac yn herio arweinwyr ynglŷn â rheolaeth ariannol a'r defnydd o grantiau, yn drylwyr. Mae llywodraethwyr yn sicrhau bod yr ysgol yn defnyddio'r grant datblygu disgyblion a grantiau eraill Llywodraeth Cymru yn effeithiol i wella medrau llythrennedd disgyblion, ac yn cefnogi datblygiad disgyblion mwy bregus. Mae llywodraethwyr yn gweithio gydag arweinwyr yr ysgol i hyrwyddo diwylliant diogelu cadarn.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o’r holiadur i rieni / gofalwyr a’r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a’r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i’w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a’i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â’r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny’n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a’r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â’r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu’r disgyblion, lle bo’n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo’n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso’r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella’r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae’r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau’r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a’r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi’r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau’r arolygiad ochr yn ochr â’r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â’r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae’r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 19/12/20222